

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward Llawr Cyntaf, Canolfan Ganser Felindre

Dyddiad y gweithgarwch: 03 Mawrth 2021

Dyddiad cyhoeddi: 07 Ebrill 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward Llawr Cyntaf Canolfan Ganser Felindre fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Ganser Felindre yn rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n darparu gwasanaethau cancer arbenigol nad ydynt yn llawfeddygol i boblogaeth De-ddwyrain Cymru.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward a nyrs Band 6 ddydd Mercher 03 Mawrth 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod uchafswm nifer y cleifion y gellir darparu ar eu cyfer ar y ward wedi lleihau o 32 i 22. Mae hyn er mwyn cydymffurfio â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol gan sicrhau bod cleifion yn cadw pellter o ddau fetr oddi wrth ei gilydd bob amser.

Mae gan y ward wyth ciwbicl unigol, ac mae gan rai ohonynt gyfleusterau en-suite. Dywedwyd wrthym fod y ciwbiclau yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer y cleifion hynny nad oedd eu harhosiad yn yr ysbyty wedi'i gynllunio ymlaen llaw ar hyn o bryd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael eu hynysu a'u sgrinio'n briodol ar gyfer COVID-19 pan gânt eu derbyn er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Nid yw'r cleifion yn cael mynd ar gilfannau'r ward nes iddynt gael canlyniad negatif i brawf COVID-19, neu nad oes ganddynt symptomau mwyach. Gellir lleoli hyd at ddau glaf ym mhob cilfan ar y tro, a lle y cafodd achosion o COVID-19 eu cadarnhau ar y ward, dim ond un claf a leolir yn y gilfan. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cadw digon o bellter cymdeithasol a lleihau'r risg o groes-heintio.

Dywedwyd wrthym fod cyfleusterau golchi dwylo wedi cael eu gosod er mwyn lleihau'r risg o heintio a throsglwyddo ymhellach. Darperir llenni plastig y gellir eu glanhau yn hawdd hefyd ac mae gel dwylo alcohol ar gael wrth ymyl pob gwely ac mewn ardaloedd allweddol o'r ward.

Cawsom dystiolaeth ddogfennol i ddangos y cynhaliwyd yr archwiliad amgylcheddol diweddaraf o'r ward ar 05 Chwefror 2021. Dangosodd hyn gyfradd gydymffurfio gyffredinol o 97.86% yn erbyn safonau'r Ymddiriedolaeth.

Cawsom dystiolaeth ddogfennol i ddangos bod y risg o gwmpo yn cael ei hasesu a'i chofnodi i'r Panel Craffu ar Gwympiadau bob mis. Hefyd, cawsom dystiolaeth ddogfennol i ddangos bod achosion o niwed pwyso neu niwed i feinweoedd hefyd yn cael eu monitro a'u cofnodi. Mae hyn yn dangos bod y sefydliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau iechyd a diogelwch cleifion drwy archwiliadau ac asesiadau risg cadarn a chynhwysfawr.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopïau o'r polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisiau a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19. Mae'r rhain yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r canllawiau Cenedlaethol diweddaraf ynghylch COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a hyfforddiant yn benodol ar gyfer COVID-19 wedi cael eu darparu i bob aelod o'r staff.

Cawsom dystiolaeth ddogfennol i ddangos bod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, sy'n cynnwys samplu ansawdd yr aer yn rheolaidd, ynghyd ag archwiliadau glanhau amgylcheddol dyddiol ac archwiliadau hylendid dwylo. Cawsom gopïau o'r Adroddiad Rheoli Gweithredol ar Oruchwyliaeth a Pherfformiad o ran Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Chwarter tri, adroddiad ar Atal a Rheoli Heintiau yn nodi tueddiadau goruchwyllo ar gyfer mis Ionawr 2021, ac Adroddiad Blynnyddol yr Ymddiriedolaeth ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer 2019/2020. Mae'r rhain yn dangos bod y sefydliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y risg o haint yn cael ei rheoli'n briodol drwy archwiliadau ac asesiadau cadarn a chynhwysfawr. Caiff yr archwiliadau hyn eu hadolygu bob mis gan Bwyllgor Atal a Rheoli Heintiau yr Ymddiriedolaeth, ac yn ystod y cyfarfodydd Cell Cadw Pellter Cymdeithasol a PPE a gynhelir bob pythefnos.

Dywedwyd wrthym fod gan yr Ymddiriedolaeth dîm o dair nyrs atal a rheoli heintiau dynodedig, ynghyd â Chynghorydd Diogelu Anadlol, ac mae pob un ohonynt yn bresennol ar y ward yn rheolaidd. Mae Microbiologydd/Meddyg Rheoli Heintiau dynodedig hefyd ar gael i roi cymorth i staff y ward pan fo angen. Yn ogystal â hyn, mae gan Oncologydd Ymgynghorol gyfrifoldeb dynodedig dros Arweinydd Meddygol Rheoli Heintiau'r Ganolfan Ganser. Mae hyn yn golygu bod tîm amlddisgyblaethol yn goruchwyllo'r trefniadau o ran atal a rheoli heintiau ar y ward. Dywedwyd wrthym hefyd, dros y chwe mis diwethaf, fod Nyrs Ymgynghorol Arweiniol lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau wedi ymweld â'r Ganolfan Ganser er mwyn cynnal asesiadau. Dywedwyd bod uwch dîm nyrsio'r Ganolfan Ganser wedi

ysgogi'r ymweliad hwn er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau atal a rheoli heintiau wedi cael eu rhoi ar waith yn y ffordd orau posibl yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod pob claf y cynlluniwyd iddo gael ei dderbyn yn cael ei sgrinio ar gyfer COVID-19 cyn ei dderbyn i'r ward. Mae pob ymwelydd yn cael ei sgrinio ar gyfer COVID-19 wrth bob mynedfa i'r Ganolfan Ganser. Dywedwyd wrthym y cydymffurfir â'r canllawiau Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr â lleoliadau gofal. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y caniateir i rai perthnasau ymweld â'u hanwyliaid. Lle y caniateir ymwelwyr, defnyddir yr Ystafell Deulu sydd wedi'i lleoli oddi ar y ward er mwyn lleihau'r risg o heintio. Roedd llechi electronig hefyd ar gael i gleifion gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau yn ystod y cyfnod hwn lle y cyfyngir ar ymweliadau.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod digon o gyflenwadau o PPE ar gael i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr, ac y cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod lefelau digonol yn cael eu cynnal.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiâu (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol y Ganolfan Ganser a'r Ymddiriedolaeth yn goruchwyllo lefelau staffio ac yn sicrhau bod digon o aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael i ddarparu gofal i gleifion.

Dywedwyd wrthym fod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn defnyddio fframweithiau ffurfiol er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel a digonol parhaus bob amser. Dywedwyd wrthym fod archwiliad mewnol, a gynhaliwyd ar ddiwedd 2020, wedi rhoi sicrwydd bod y ward yn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Caiff data mewn perthynas â lefelau dibyniaeth y cleifion, llif cleifion a lefelau staffio eu casglu bob dydd a'u mewnbynnu i'r System Monitro Safonau Iechyd a Gofal (HCMS). Y ogystal â hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn y broses adolygu aciwtedd a feincnodir ddwywaith y flwyddyn. Caiff canlyniad hyn ei ddefnyddio ddwywaith y flwyddyn i adolygu niferoedd staff nyrsio ar y cyd ag adolygu

dangosyddion ansawdd ward craidd gan gynnwys nifer yr achosion o gwmpo, briwiau pwyso, heintiau a geir wrth gael gofal iechyd, profiad cleifion a chwynion. Caiff hyn ei drafod yn ystod cyfarfodydd adolygu'r sefydliad a gynhelir ddwywaith y flwyddyn sy'n cael eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rota staffio'r ward yn cael ei wirio bob dydd er mwyn sicrhau bod digon o aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol er mwyn diwallu anghenion a niferoedd y cleifion ar yr adeg honno. Mae rheolwr y ward yn treulio ei holl amser yn gweithio mewn rôl goruchwyllo er mwyn sicrhau bod y ward yn cael ei rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol o ddydd i ddydd, gan gynnwys monitro lefelau staffio.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y ward yn gweithredu ar gapasiti is, felly nid oes angen hysbysebu ar gyfer swyddi gwag ar hyn o bryd ac nid yw'r ward yn dibynnu llawer ar staff asiantaeth na staff banc. Mae rheolwr y ward yn sicrhau bod cymysgedd sgiliau priodol ymhlith y staff ar y ward bob amser, gyda nyrs Band chwech yn gweithio ar bob sifft. Mae staff nyrsio'r ward yn cael cefnogaeth gan uwch nyrsys a meddygon. Mae trefniadau dyddiol i Feddyg Ymgynghorol adolygu cleifion sydd newydd gael eu derbyn wedi cael eu cyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal gorau posibl. Cynhelir rownd Bwrdd bob dydd sy'n cynnwys aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol, arweinydd Atal a Rheoli Heintiau, staff Therapi a Fferylliaeth a chynhelir adolygiad amlddisgyblaethol bob wythnos o'r holl gleifion sydd newydd gael eu derbyn. Mae hyn yn sicrhau bod gofal y cleifion yn cael ei reoli'n ddidrafferth ac yn effeithlon, a bod y gofal a ddarperir yn holistaidd.

Mae'r ddogfennaeth a ddarparwyd yn dangos bod Adolygiadau Perfformiad, Arfarnu a Datblygu (PADR), yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cawsom ystadegau hyfforddiant sy'n dangos bod cyfradd cydymffurfiaeth uchel ar y cyfan ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelwch tân wedi cynyddu i 82% ac y bydd cyfraddau cwblhau yn cynyddu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Daethpwyd o hyd i hwylusydd hyfforddiant annibynnol ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Canolraddol ac mae pedair sesiwn wedi'u trefnu dros y pythefnos nesaf. Bydd hyn yn golygu y bydd y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau'r cwrs erbyn hynny. Mae pum aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i raeadru'r hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol, ac mae aelod dynodedig o staff Band 3 yn gyfrifol am gysylltu â staff y mae angen iddynt gwblhau'r hyfforddiant. Dywedodd rheolwr y ward wrthym y bydd hyn yn sicrhau y bydd y mwyafrif o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol o fewn y pythefnos nesaf.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i roi rhagor o gymorth i'r staff yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio'r ystafell ymwelwyr i gael amser i ffwrdd o'r ardal glinigol. Mae'r uned Therapi hefyd ar gael i'r staff, ynghyd â chymorth seicolegol a therapïau ategol. Mae gan nyrsys Band 6 gyfrifoldeb dirprwyedig am sefydlu grwpiau cymorth i'r staff. Hefyd, dywedodd rheolwr y ward wrthym fod aelodau o'r tîm hefyd yn dda iawn am roi cymorth i'w gilydd. Mae hysbysfyrddau wedi cael eu gosod er mwyn arddangos sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth a chyflwynwyd cynllun cyflogai y mis i roi hwb pellach i forâl y staff.

Nododd rheolwr y ward ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan y pennaeth nyrsio a'r dirprwy bennaeth nyrsio sy'n bresennol ar y ward.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Ganser Felindre

Ward: Ward Llawr Cyntaf

Dyddiad y gweithgarwch: 03 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Nid oes angen gwneud unrhyw welliannau				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: